

## **CYMRAEG (IAITH GYNTAF)**

Amser – 1.5 awr

Ateba ddau gwestiwn, un o Adran A ac un o Adran B

---

### Adran A – Gwerthfawrogi llenyddiaeth

1. Ysgrifenna werthfawrogiad o naill ai (a) y gerdd, neu (b) y darn rhyddiaith isod, gan roi sylw manwl i'r cynnwys ac i'r arddull

(a)

#### 'Hang gliders' uwchben Garn-swllt

Prynhawn o haf modern,  
a'r awel fwyn  
yn tagu rhwng chwaon egsost.

Gwres yn crynu  
ar fonedi  
a chrychu trwyn yr awyr.

Hymian diamynedd  
a chwynu'r ceir.

Brecio, hyrddio,  
peiriannau'n ticio a thylcio  
rhwng y palmentydd llwm.

A chodi llygaid  
dros y llifeiriant unlliw  
rhwng y siopau llwyd.

Yno ar echel uchel yr awyr  
roedd dau  
derodactyl newydd  
yn lledu adenydd anferth  
ac yn codi  
ar chwaon disglair  
uwch y brynau.

Eu cysgod o ryddid  
dros y rhedyn pell  
yn atgof triongl o'r cynfyd,  
a'r cyrff main danynt  
yn crogi'n  
eu crafangau  
yn gyntefig gaeth

fel y gweddill  
danynt  
yng nghregyn eu ceir.

(b)

Mae'r nodwydd wedi mynd heibio chwe deg ... saith deg ... saith deg pump ... wyth deg ... Mae'r byd yn rhuthro heibio ar gyflymder o wyth deg pum milltir yr awr. Mae'r haul yn boeth, mae'n haf, ac rydyn ni'n dwy allan i fwynhau ein hunain. Wrth fy ochr, teimlaf wres corff Bigw, ei gwallt gwinau yn llifo'n donnau dros ei 'sgwyddau, ei chorff ifanc fel f'un innau yn eiddgar am gynnwrf, am syndod, am wefr yr annisgwyl.

Penrhyddid cyflymder – does dim byd tebyg iddo fo. Rydw i'n credu fod dyn yn cael ei eni ddwywaith. Un waith pan ddaw o allan o groth ei fam, a'r eilwaith pan mae o'n pasio ei brawf gyrru. Daw profiadau cyffredin o ddydd i ddydd ar gyflymder cyffredin. Daw'r profiadau eithaf ar y cyflymder eithaf.

Whi!!! Dyma'r bywyd! Gyda'r miwsig yn llenwi 'nglustiau, mae'r cyfan yn cyrraedd crescendo hyfryd wrth i'r ffordd ymagor o'm blaen.

Rhydd wyf ...

Dwi'n gwybod mod i'n anghyfrifol tu ôl i olwyn, ond does gen i ddim help. Y funud yr ydw i'n camu i mewn i'r peiriant 'ma, rydw i'n berson gwahanol – mae yna weddnewidiad llwyr yn digwydd. Wrth deithio ar y fath gyflymder, does dim disgwyl i'r ymennydd aros yr un fath. Na – mae hwnnw hefyd yn rasio'n wyllt i gadw'r un cyflymder â'r un y mae'r corff yn teithio arno.

'Tro'r ochr arall, Bigw.'

'Rydw i isio clywed rhywbeth gwahanol.'

lawn gen i, cyn belled â'i fod o'n sŵn. Sŵn uchel sy'n llenwi fy mhen â delweddu gwallgo. Sŵn swnllyd sy'n cau fy nghlustiau fel nad oes lle i ddim arall. Mynd, mynd, mynd.

Ifanc wyf ...

'Siocled?' 'Grêt.'

Mae Bigw'n agor y papur arian ac yn estyn y siocled. Teimlaf gyffyrddiad ei bysedd â 'ngwefusau wrth iddi 'mwydo i.

Peth cynnes ydi ffrindiau. Mor gynnes â siocled tawdd yn llifo i lawr eich gwddf ...

'Gwylia!!!'

... Mi oedd honno'n un agos. Doeddwn i ddim yn edrych, wrth gwrs. 'Ro'n i rhy brysur yn mwynhau'r siocled a 'meddwl i ymhell bell i ffwrdd. Ddylwn i ddim fod wedi goddiweddyd.

'Ti'm yn gall.'

'Mae hynny'n gwneud dwy ohonon ni.'

Ac rydyn ni'n chwerthin yn ddrwg.

Rydyn ni'n mwynhau bod yn ddrwg. Dyna ein hawl. Mae gen i hawl i basio pob car ar y ffordd. Fi ydi'r gorau. Fy nghar i ydi'r cyflymaf. Dim ond gwireddu pob hysbyseb a welais ar y sgrin yr ydw i. Dydi'r un person smart yn cael ei bortreadu'n araf ddiflasu tu ôl i gar arall, nac ydi? Wrth gwrs nac ydi o! Mae pob car smart ar ei ben ei hun yng nghanol nunlle wedi goddiweddyd popeth o fewn golwg. Felly wish â fi!

'Ti isio dracht?'

Byw wyf ...

## **Adran B – Defnyddio'r iaith**

**Ateba naill ai gwestiwn 2 neu gwestiwn 3.**

### **2. Cyfieitha'r darn canlynol i Gymraeg safonol:**

Don't sit down in front of a blank page or screen and wait for a poem to arise. Only write once you have got something to work with. This could be a phrase, an image or a sensation.

When a phrase occurs, write it down but keep hold of it in your head, too. Turn it over, play with it as you go about your day. A poem is not made only

in its being written. Feel out the bundle of words that you are carrying around – their music, shape and texture will inform the whole poem.

Each poem will take shape differently and your first words may belong anywhere. Eventually, they may not belong at all. Nothing earns its place in a poem through longevity.

Find the conditions that enable you to forget what you are doing. You need to enter the world of this poem, to find yourself among it. Robert Frost describes this as feeling as if he has ‘materialised from cloud or risen out of the ground’.

### **3. Ailysgrifenna'r darn isod, gan ffurfioli'r iaith (heb newid yr ystyr) a chywiro'r holl wallau. Yna esbonia unrhyw ddeg o'r gwallau a danlinellwyd, gan ddefnyddio'r termau gramadegol priodol, hyd y gelli.**

A oes genyt llawer o pethau i'w gwneud ar wyliau? Darllenais yng nghylchgronau a chlywais ar y we a theledu fod yr ynys lle rwyd ti'n mynd yn boblogaidd iawn. Galwir y lle'n baradwys neu nefoedd ar y ddaear. Gyda teithiau tramor, fel arfer ceir lawer o amser i weld olygfeydd gwych. Os nid oes unrhywbeth i'w wneud yn gwesty heblaw bwyta a gysgu, mae'n bosib mynd i'r ddinas cyfagos neu fwynhau gwres yr Haf ar y traeth. Mae e'n ardal boblogaidd iawn, a soniodd rhywun roedd mwy o bobl wedi mynd yno nac erioedd y llynedd. Es i a fy nheulu yno blynyddoedd lawer yn ol, a cael amser gwych yn gwesty crandiaf yr ynys. Aethon ni i'r gwinllannau lle roedd coed orenau, a phigo ein orenau oddi ar nhw.

Y beth gorau gyda cyfnodau dramor yw ei bod yn gyfle i fod yn egnoi. Mae'n braf cwrdd a ffrindiau newydd a profi bob math o fwydydd. Pan es i flynyddoedd yn nôl, roedd fwyty da yn y dinas, ac roedd y bobl cyfeillgar yno'n honni bod nhw'n well na phawb! Ro'n ni'n starfo, felly doedd dim llawer o ots gyda'n ni. Roedd rhai'n credu ei bod nhw'n gwallgo! Pob hwyl iti, a gobeithio ni fyddet ti'n aros ormod yn y maes awyr.